

Cyfenw	Atebion
Enw(au) cyntaf	

Rhif y Ganolfan

Rhif yr Ymgeisydd
0



TGAU

3300N10-1



S24-3300N10-1

DYDD IAU, 16 MAI 2024 – BORE

**MATHEMATEG
UNED 1: HEB GYFRIFIANNELL
HAEN SYLFAENOL**

1 awr 30 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Ni allwch chi ddefnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.
Efallai bydd angen pren mesur, onglydd a chwmpas.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Gallwch chi ddefnyddio pensil ar gyfer graffiau a diagramau yn unig.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.

Os nad oes digon o le, defnyddiwch y dudalen ychwanegol yng nghefn y llyfryn. Rhaid rhoi rhif y cwestiwn ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei ysgrifennu ar y dudalen ychwanegol.

Cymerwch π fel 3.14.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dylech chi roi manylion eich dull datrys os yw'n briodol.

Nid yw'r diagramau wedi'u lluniadu wrth raddfa os nad yw'n cael ei nodi.

Ni fydd atebion lluniadu wrth raddfa yn dderbyniol os oes gofyn i chi gyfrifo.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Yng nghwestiwn **3**, bydd yr asesu'n ystyried ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb ieithyddol a mathemategol yn ysgrifennu.


I'r Arholwr yn Unig		
Cwestiwn	Marc Uchaf	Marc yr Arholwr
1.	2	
2.	2	
3.	6	
4.	2	
5.	3	
6.	3	
7.	4	
8.	2	
9.	4	
10.	2	
11.	3	
12.	2	
13.	2	
14.	3	
15.	5	
16.	4	
17.	4	
18.	7	
19.	5	
Cyfanswm	65	



JUN243300N10101

Rhestr Fformiwlâu – Haen Sylfaenol

Arwynebedd trapesiwm = $\frac{1}{2}(a + b)h$



1. (a) Cyfrifwch 5620×100 .

[1]


562,000

- (b) Ysgrifennwch 42861 yn gywir i'r cant agosaf.

[1]

42,900

2. (a)



Beth yw enw arbennig y siâp sy'n cael ei ddangos uchod?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb.

[1]

pentagon


hecsagon

barcut

paralelogram

rhombws

- (b)



O yw canol y cylch sy'n cael ei ddangos uchod.

Beth yw enw arbennig y llinell syth sy'n cael ei dangos yn y diagram?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb.

[1]

cylchyn

tangiad

diamedr

radiws

cord



3. Yn y cwestiwn hwn, cewch eich asesu ar ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb yn ysgrifennu.

Mae pedwar bag o leiniau (*beads*) gan Alex.
Mae tri o'r bagiau hyn yn cynnwys 65 o leiniau yr un.
Mae'r pedwerydd bag yn cynnwys 405 o leiniau.

Mae Alex yn arllwys yr holl leiniau o'r pedwar bag i mewn i flwch gwag.

Yna, mae Alex yn rhannu'r holl leiniau hyn yn gyfartal rhwng y pedwar bag.

Faint o leiniau sydd ym mhob bag?

Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo.

[4 + 2 TCY]

SWM

$$\begin{array}{r} 65 \\ 65 \\ 65 \\ + 405 \\ \hline 600 \\ \hline 22 \end{array}$$

$$\begin{array}{r} 150 \\ 4 \overline{) 600} \end{array}$$

EGLURHAD


Cyfanswm y leiniau
yn y pedwar bag

Casgliad: Bydd 150 o
leiniau ym mhob bag
ar ôl dosbarthu'n gyfartal.



4. Mae Matilda yn gofyn i 10 o'i ffrindiau beth yw eu hoff chwaraeon.

Mae pob un ohonyn nhw yn dewis un o rygbi, hoci neu criced.
Mae Matilda yn dangos canlyniadau'r arolwg yn y siart bar isod.



Mae Matilda yn dewis un o'i ffrindiau ar hap.

- (a) Disgrifiwch y siawns mai criced yw hoff chwaraeon y ffrind.
Rhowch gylch o amgylch y mynegiad gorau o'r rhai isod.

[1]

amhosibl annhebygol siawns deg tebygol sicr

- (b) Disgrifiwch y siawns mai rygbi yw hoff chwaraeon y ffrind.
Rhowch gylch o amgylch y mynegiad gorau o'r rhai isod.


[1]

amhosibl annhebygol siawns deg tebygol sicr



5. Darganfyddwch beth yw perimedr y petryal isod.
Rhowch unedau eich ateb.

[3]




$$7 + 4 + 7 + 4 = 11 + 11$$

$$= 22 \text{ cm}$$

Perimedr = 22 cm


6. (a) Ysgrifennwch y rhif nesaf yn y dilyniant hwn.

[1]



- (b) Ysgrifennwch y ddau rif nesaf yn y dilyniant hwn.

[2]



7. (a) Symleiddiwch $5k - 8k + 6k$.

[1]

$$= -3k + 6k$$

$$= 3k$$

(b) Datrysych yr hafaliadau hyn.

(i) $15 + x = 60$

[1]

$$x = 60 - 15$$

$$x = 45$$

(ii) $20 - y = 9$

[1]

$$y = 11 \quad (\text{Mae } 20 \text{ Eynnu } 11 \text{ yn } 9)$$

(iii) $6w = 54$

[1]

$$w = 54 \div 6$$

$$w = 9$$


8. Mae'r diagram Venn isod yn cael ei ddefnyddio i ddangos

- lluosrifau 5
- ffactorau 15.

Rhowch y rhifau 1, 3, 5, 10 ac 15 yn y diagram Venn.

Ffactorau 15:
 1×15
 3×5

[2]



9. Ysgrifennwch beth yw gwerth pob un o'r canlynol.

(a) (i) 7^2

$$7 \times 7 = 49$$

[1]

(ii) $\sqrt{81}$

9

[1]

(b) (i) Ysgrifennwch 19.731 yn gywir i 1 lle degol.

19.7

[1]

(ii) Ysgrifennwch 65.4279 yn gywir i 3 lle degol.


65.428

[1]

10. Ar y diagram, marciwch y pwynt C gyda chroes (x) fel bod:

- $\hat{A}BC = 55^\circ$ a
- $BC = 7.4$ cm

[2]



11. Mae lfan wedi dewis pedwar odrif.
Mae rhai o'r rhifau yr un peth ac mae rhai ohonyn nhw'n wahanol.
Mae pob un o rifau lfan yn llai na 10.

Modd a hefyd cymedr rhifau lfan yw 7.

Pa rifau mae lfan wedi'u dewis?

[3]

Odrifau llai na 10: 1, 3, 5, 7, 9

Cymedr yn 7 yn golygu mair cyfanswm yw $7 \times 4 = 28$

Gall 7, 7, 7, 7 roi cyfanswm 28 ond rhaid cael
rhifau gwahanol. Felly bynnu 2 o'r 7 cyntaf
ag adio 2 i'r 7 olaf.

Rhifau lfan yw

5

7

7


9

12. Enrhifwch bob un o'r canlynol.

(a) 0.8×0.25

Mae $\frac{1}{4}$ o 0.8 yn 0.2

NEU



[1]

(b) $13.4 - 2.96$

$\begin{array}{r} 13.40 \\ - 2.96 \\ \hline 10.44 \end{array}$

[1]



13. (a) Pa un o'r canlynol yw'r gwerth agosaf at 488 gram?
Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir. $= 0.488 \text{ kg} \downarrow \div 1000$ [1]

0.5 kg 500 kg 50 kg 5 tonnell fetrig 0.05 kg

- (b) Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir ar gyfer y canlynol.
Mae 15 milltir yn hafal yn fras (*approximately*) i [1]

1500 m 24 km 15 km 2.4 km 3000 m

$$1 \text{ milltir} \approx 1.6 \text{ km}$$

$$10 \text{ milltir} \approx 16 \text{ km}$$

$$5 \text{ milltir} \approx 8 \text{ km}$$

$$15 \text{ milltir} \approx 24 \text{ km}$$

14. Mae n fed term dilyniant yn cael ei roi gan $5n - 1$.

Cyfrifwch swm y 3 term cyntaf.
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [3]

$$\begin{array}{l} \text{1af} \quad 5 \times 1 - 1 \\ \hline = 5 - 1 \\ = 4 \end{array} \quad \begin{array}{l} \text{2il} \quad 5 \times 2 - 1 \\ \hline = 10 - 1 \\ = 9 \end{array} \quad \begin{array}{l} \text{3ydd} \quad 5 \times 3 - 1 \\ \hline = 15 - 1 \\ = 14 \end{array}$$

$$4 + 9 + 14 = 13 + 14 \\ = 27$$


Swm y 3 term cyntaf = 27



15. Yn y diagram isod, triongl ongl-sgwâr yw ABC a thriongl isosgeles yw CDE .

Mae $\hat{ABC} = 90^\circ$, $\hat{BAC} = 64^\circ$ ac $CD = CE$.

Mae AD a BE yn llinellau syth sy'n croestorri (*intersecting*) yn C .



Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa

Cyfrifwch beth yw maint pob un o'r onglau x , y a z .

[5]

$$\begin{array}{r} 64 \\ + 90 \\ \hline 154 \end{array} \quad \begin{array}{r} 180 \\ - 154 \\ \hline 26 \end{array}$$

$$2 \overline{) 154} \begin{array}{r} 077 \\ \underline{14} \\ 14 \\ \underline{14} \\ 0 \end{array}$$

$x = 26^\circ$ $y = 26^\circ$ $z = 77^\circ$



16. Mewn gêm, bydd pob cystadleuydd yn cael 20 cynnig (*attempts*) ar daflu pêl i mewn i fwced. Bydd pob cystadleuydd yn cael 1 pwynt am bob pêl sy'n glanio yn y bwced.

Mae Sioned eisiau cadw cofnod o'r cyfanswm pwyntiau ar gyfer pob cystadleuydd. Mae hi'n penderfynu dangos y canlyniadau mewn tabl, gyda'r cyfanswm pwyntiau wedi'i gofnodi mewn **grwpiau â lled hafal**.

- (a) Mae hi'n dechrau lluniadu tabl gan ddefnyddio 5 grŵp, fel sy'n cael ei ddangos isod.

0,1,2,3 4,5,6,7 8,9,10,11 12,13,14,15 16,17,18,19

Cyfanswm pwyntiau	0 i 3	4 i 7	8 i 11	12 i 15	16 i 19
Nifer y cystadleuwyr					

Esboniwch pam nad yw'r grwpiau hyn yn addas.

[1]

*Nid yw'r grŵp olaf yn cynnwys 20
Cos yw pob pêl yn mynd i mewn i fwced yna
uchafsum y pwyntiau posib yw 20).*

- (b) Mae Sioned yn ystyried defnyddio'r tabl isod. Mae hi'n penderfynu ei fod yn addas ar gyfer cofnodi pob cyfanswm pwyntiau mewn **grwpiau â lled hafal**.

Llenwch y ddau rif sydd ar goll yn y rhës uchaf.

0,1,2,3,4,5,6 | 7,8,9,10,11,12,13 | 14,15,16,17,18,19,20

Cyfanswm pwyntiau	0 i 6	7 i 13	14 i 20
Nifer y cystadleuwyr			



- (c) Yn olaf, mae Sioned yn penderfynu defnyddio'r grwpiau sy'n cael eu dangos yn y tabl isod. Mae'r canlyniadau ar gyfer y 100 cystadleuydd cyntaf yn cael eu dangos yn y tabl.

Cyfanswm pwyntiau	0 i 2	3 i 5	6 i 8	9 i 11	12 i 14	15 i 17	18 i 20
Nifer y cystadleuwyr	5	10	17	22	23	12	11

Mae un o'r 100 cystadleuydd hyn yn cael ei ddewis ar hap.

- (i) Beth yw'r tebygolrwydd bod y cystadleuydd hwn wedi sgorio 6, 7 neu 8 pwynt? [1]

17

100

- (ii) Esboniwch pam mae'r gosodiad canlynol efallai yn anghywir. [1]

Y tebygolrwydd bod y cystadleuydd hwn wedi sgorio 19 pwynt yw $\frac{11}{100}$.

Mae'r golofn olaf yn dangos bod 11 cystadleuydd wedi cael 18, 19 neu 20 pwynt, nid dim ond 19 pwynt.




17. (a) Mynegwch 96 fel canran o 300. [2]

$$\frac{96}{300} = \frac{32}{100} = \underline{\underline{32\%}}$$

$$\begin{array}{r} 32 \\ 3 \overline{)96} \end{array}$$

- (b) Rhannwch £48 yn ôl y gymhareb 1 : 7. [2]



$$1 + 7 = 8$$



$$£48 \div 8 = £6$$

$$1 \times 6 = \underline{\underline{£6}}$$

$$7 \times 6 = \underline{\underline{£42}}$$



18. Mae Ahmed yn trefnu gêm sy'n defnyddio dau droellwr teg, fel sy'n cael ei ddangos isod. Mae'r troellwr cyntaf yn dangos y gwerthoedd 10, 20, 30 a 40. Mae'r ail droellwr yn dangos y gwerthoedd 1, 2, 3, 4 a 5.



Yn y gêm, mae chwaraewr yn troi'r ddau droellwr ac yn adio'r gwerthoedd sy'n cael eu dangos i roi sgôr.

Er enghraifft, mae'r troellwyr uchod yn rhoi sgôr o 32.

Mae Ahmed yn codi (*charges*) £1 am bob cynnig ar y gêm.

Mae unrhyw chwaraewr sy'n cael sgôr o **43 neu fwy** yn ennill £5.

Cyfrifwch yr elw byddai Ahmed yn disgwyl ei wneud pan mae'r gêm hon yn cael ei chwarae 100 o weithiau. [7]

+	1	2	3	4	5	
10	11	12	13	14	15	Diagram gofod sampl
20	21	22	23	24	25	
30	31	32	33	34	35	
40	41	42	43	44	45	

Siams o ennill: $\frac{3}{20}$

Lluosi efo 5: $\frac{3}{20} \times 5 = \frac{15}{100}$

$$\begin{array}{r} 15 \\ \times 5 \\ \hline 75 \\ \hline 2 \end{array}$$

100 yn chwarae, pres i meun $100 \times \pounds 1 = \pounds 100$


15 yn ennill, pres allan $15 \times \pounds 5 = \pounds 75$

Elw £25




19. (a) Adlewyrchwch y siâp A yn y llinell $x = -1$.

[2]



- (b) Helaethwch (*enlarge*) y siâp B yn ôl ffactor graddfa 2, gan ddefnyddio (1, 3) fel canol yr helaethiad. [3]



DIWEDD Y PAPUR



Rhif y Cwestiwn	Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen.



TUDALEN WAG

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU
AR Y DUDALEN HON**



TUDALEN WAG

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU
AR Y DUDALEN HON**

